

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Hydref 13, 2020 am 7:30yh o'r gloch.**

Presennol: Cynghorwyr: Simon Evans, Carwyn Evans, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer, Gareth Ellis, Gethin Williams a John Hughes. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau:

Nid oedd ymddiheuriadau.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Gethin Williams yn datgan diddordeb ynglyn ag Eitem 5.c. 'Materion Ariannol' ac Eitem 8.b.ii 'Ceisiadau cynllunio'.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 8, 2020

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Medi 8, 2020

Nid oedd materion yn codi.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Swyddog Cymhorthydd Refeniw Trethi Annomestig, Cyngor Gwynedd yn ateb ein llythyr i Eitem 5.e. Cofnodion Ionawr 14, 2020.

Maent yn rhoi gwybod mae'r bil dal yn bodoli ar gyfer y toiledau er bod yr adeilad wedi ei gau. Maent yn rhoi gwybod hefyd mi fydd angen cysylltu â'r Swyddfa Brisio (Valuation Office Agency) i wneud cais i dynnu'r toiledau allan o'r rhestr ac i dynnu'r asesiad Trethi Annomestig oddi ar y toiledau.

Mi fydd angen i ni gysylltu â'r swyddfa Brisio drwy 03000 505505 neu ratingwales@voa.gsi.gov.uk. Bydd y Swyddog yn rhoi ein cyfrif ar "hold" hyd at 31.05.2020.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd i Gethin Williams gwneud ymoliadau gyda Cyngor Gwynedd ynglŷn â chyflwr yr adeilad.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 13, 2020

b. Bil (27/8/2020) am £100 oddi wrth John A. Owen am gladdu llwch ar gyfer gwasanaeth ar 27/8/2020.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Derbyniwyd bil (23/7/2020) am £384.00 oddi wrth Mr J. Ll. Williams am glirio llwybrau ardal Bontddu 2020. (Blwyddyn ddiwethaf roedd y swm yn £564.00).

Penderfynwyd talu'r bil.

Yn cynwys gyda'r bil mae Mr Williams yn rhoi gwybod ei fod yn rhoi gorau i glirio'r llwybrau. Mae wedi bod yn gwneud y gwaith am 14 o flynyddoedd. Oherwydd y 'lock down' dim ond unwaith mae wedi bod yn clirio'r llwybrau ac nid dwywaith fel mae'n arfer ei wneud ond er hynny mae eu cyflwr yn iawn am eleni. Mae ei wŷr John Williams (mab Gethin Williams) â diddordeb i wneud y gwaith. Mae'n 17 mlwydd oed.

Penderfynwyd diolch Mr Williams am ei wasanaeth am flynyddoedd o ofalu am lwybrau ardal Bontddu a gofyn iddo os mae gan Mr John Williams yswriant 'Public Liability' i wneud y gwaith.

ch. Balans yn y banc ar 29 Medi, 2020: £13,942.17 (29 Medi, 2019: £11,277.86).

6. Archwilio

a. Llythyr (28/9/2020) oddi wrth BDO yn gofyn am eglurhad ar faterion oedd yn ein hadroddiad. Rhoddwyd yr eglurhad oedd ei angen fel canlynol:

1. Cyfanswm derbyniadau eraill

	<u>2018 / 2019</u>	<u>2019 / 2020</u>	<u>Gwahaniaeth</u>
Grantiau	£841	£841	0
Mynwent	£2,315	£3,625	+£1,310, +56%
Arall	<u>£330</u>	<u>£707</u>	+£377, +114%
Cyfanswm	£3,486	£5,173	

Gwahaniaeth £3,486 - £5,173 = +£1,687, +48%

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 13, 2020

3. Cyfanswm taliadau eraill

	<u>2018 / 2019</u>	<u>2019 / 2020</u>	<u>Gwahaniaeth</u>
Gweinyddu	£3,553	£2,099	-£1,454, -41%
Llwybrau	£1,605	£1,599	-£6, -0.4%
Mynwent	£2,967	£3,099	+£132, +4%
Rhoddion	£650	£600	-£50, -8%
Neuaddau	£1,000	£1,000	0
Costau cynrychioli	0	£48	+£48
TAW	<u>£323</u>	<u>£294</u>	-£29, -9%
Cyfanswm	£10,098	£8,739	

Gwahaniaeth: £10,098 - £8,739 = -£1,359, -13%..

Yn 2018 / 2019 roedd Costau Cynrychioli £62 yn Staff, roedd costau clerics £212 yn Gweinyddu.

Yn 2019 / 2020 roedd £48 yn y Costau Cynrychioli, roedd costau clerics £282 yn Staff.

2. Costau Staff

Roedd camgymeriad wedi ei wneud gyda chyflog y staff (clerc) am 2019 / 2020.

O fis Mai codwyd cyflog y clerics o £1,455.40 i £1,493.28 y flwyddyn, gwahaniaeth o £37.88, £37.88 / 12 = £3.16 y mis.

Dyma'r taliadau cyflog gwnaed::

Cyflog yn cael ei roi pob 3 mis: £291.24 (i'r clerics) + £72.60 (i CTHM) = £363.84.
£363.84 / 3 = £121.28 y mis.

O fis Mai cyflog yn cael ei roi pob mis: £99.64 (i'r clerics) + 24.80 (i CTHM) = £124.44 .

	<u>Taliadau gwnaed</u>	<u>Taliadau oedd i fod</u>
Ebrill	363.84	363.84
Mai	124.44	3.16
Mehefin	124.44	3.16
Gorffennaf	124.44	124.44
Awst	124.44	124.44
Medi	124.44	124.44
Hydref	124.44	124.44
Tachwedd	124.44	124.44
Rhagfyr	124.44	124.44
Ionawr	124.44	124.44
Chwefror	124.44	124.44
Mawrth	<u>124.44</u>	<u>124.44</u>
	£1,732.68	£1,490.12
Costau clerics:	<u>£281.53</u>	<u>£281.53</u>
Cyfanswm:	£2,014.21	£1,771.65

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 13, 2020

I gywiro'r camgymeriad bydd angen i'r Clerc talu y cyngor £1,732.68 - £1,490.12 = £242.56.

Cyflog 2018 / 2019: £1,446
2019 / 2020: £1,490
Gwahaniaeth: +£44, 3%.

4. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor

Roedd camgymeriad wedi ei wneud yn eitem 12.

Y ffigwr am 2019 oedd i fod £71,872.75

Y ffigwr am 2020 yn £74,028.94

Gwahaniaeth: +£2,156.19, +3%

Amgawyd copi o: Cyfrifon Cyngor Llanelltyd 2018 / 2019 a 2019 / 2020.
Manylion asedion y Cyngor 2018 / 2019 a 2019 / 2020.

Anfonwyd llythyr BDO a'r llythyr ateb anfonwyd i BDO i'r aelodau

b. Llythyr (5/10/2020) oddi wrth BDO yn gofyn am fanylion codiad cyflog y Clerc.

Rhoddydd iddynt (8/10/2020) copi o dudalen 2 o gofnodion Ionawr 8, 2019 y Cyngor yn rhoi y manylion.

7. Mynwent Llanelltyd

Penderfynwyd rhoi gwybod i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolfan Cymru iddynt ymchwilio'r wal cynnal rhwng y ddwy mynedfa i'r fynwent ar ochr ffordd A470 yn Llanelltyd. Mae barn bod ei chyflwr ddim yn dda.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (17/8/2020) yn rhoi gwybod am Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft. Mae'r ddogfen yw cael yn Swyddfa'r Parc neu ar wefan <https://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/Supp-Planning-Guidance/supplementary-planning-guidance-consultation> Dyddiad cau am ymatebion yw 13/9/2020.

b. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/65/93B. Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio NP5/65/93B dyddiedig 08/01/2018 i ail-leoli grisiau o fewn yr adeilad ynghyd a gosod ffenestr yn lle'r drws ar yr edrychiad Gogleddol ac ychwanegu un ffenestr ychwanegol llawr cyntaf ar yr edrychiad Deheuol. Brookside, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/10/2020).

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 13, 2020

ii. NP5/65/352B. Gosod 5 pod campio ar gyfer defnydd gwyliau tymor byr ynghyd a gwaith cysylltiedig. Dwynant, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (5/10/2020).

iii. NP5/65/252F. Caniatâd dros dro am gyfnod o 5 mlynedd i osod 'Portakabin' ar y safle fel swyddfa (Defnydd B1). Glasfryn Stores, Bontddu.

Cytunwyd cefnogi'r cais gwreiddiol ar 1/9/2020, a chafwyd cefnogaeth gan Eirlys Roberts (wedi ei holi).

c. Llythyr (7/10/2020) yn rhoi gwybod am eu cronfa i roi grant ariannol o £100 i £500 at brosiectau cymuned. Disgwyli'r ceisiadau oddi wrth gynghorau cymuned, grwpiau gwirfoddol, grwpiau ieuenctid, grwpiau merched ac ysgolion.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/9/2020) oddi wrth Glerc Cyngor Tref Nefyn yn rhoi gwybod bod y Cyngor yn cefnogi mesurau fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobl leol. Mae hyn oherwydd bod tai yn mynd ar y farchnad am grobris a'u prynu fel ail gartrefi yn Gwynedd. Mae'r Cyngor angen cefnogaeth cynghorau tref a phlwy i'r cynnig a gyda hyn i ni roi gwybod i Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd. Derbyniwyd llythyr arall gyda Datganiad Safbwynt.

Anfonwyd copi o'r llythyrau i'r aelodau.

Penderfynwyd cefnogi'r mesurau fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobol leol. Gyda'r mater yn effeithio ar ran fwyaf o Gymru mi ddylai Llywodraeth Cymru cael gwybod o'r mater. (26/9/2020).

b. Llythyr (28/9/2020) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gydag ail gorchymyn gwaharddiad defnydd dros dro o lwybr cyhoeddus o gyffordd Ffordd Dosbarth III i'r Golff. Bydd gorchymyn yn dod i rym ar 28/9/2020 ac yn para am chwe mis i wella'r llwybr.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

Cafwyd wybod bod y gwaith gwella y llwybr wedi ei gwblhau.

c. Llythyr 30/9/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau bydd yn cael eu cynnal ar Gweminar.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 13, 2020

ch. Llythyr (1/10/2020 oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd angen gwybod pa finiau halen sydd angen eu llenwi. Maent angen gwybod cyn Tachwedd 1, 2020. Y gost fydd £46 y bin.

Lleoliad y biniau: Cae Gwernog (2), Hirgwm, Hafod (2), Taicynhaeaf, Moel Ispri, Cwm Mynach.

Penderfynwyd llenwi biniau Hirgwm a Hafod (1 a 2).

d. Llythyr (8/10/2020) oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Un Llais Cymru, yn hysbysebu swydd 'Band Tim Taliadau Gwledig Cymru' yn Gogledd Cymru.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Gyda 'lockdown Covid19' ym Mangor mae possibilrwydd bydd holl o Gwynedd dan 'lockdown'.

Cafwyd wybod bod Ysgol Llanelltyd wedi cau heddiw oherwydd Covid19.

b. Derbyniwyd cwyn am y gweithwyr casglu sbwriel nad ydynt yn gweithio i'r oriau cywir, ddim yn casglu gwastraff pob tŷ a ddim yn ofalus wrth drin y binniau.

Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau gyda Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r mater.

11. Materion Brys

a. Mae angen adolygu ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau'r Fynwent, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad.

Mae'r polisiau ar wefan y Cyngor. Nid yw'r polisiau wedi newid ers blwyddyn diweddaf.

Penderfynwyd i'r aelodau cael y polisiau o wefan y Cyngor.

b. Sydd ddim angen gwneud gwaith o glirio gordyfiant wrth loches bws Taicynhaeaf. Roedd Meurig Ashton wedi holi (12/10/2020) os oedd angen gwneud gwaith yno.

c. Penderfynwyd gofyn Meurig Ashton i lanhau ffenestri lloches bws wrth Bro Cymer.

ch. Penderfynwyd rhoi gwybod i Heddlu Gogledd Cymru bod goryrru wrth Ysgol Llanelltyd ar ffordd A496..

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 13, 2020

d. Mae'n debygol bydd Carwyn Evans yn symud o'r ardal.

Nifer o gynghorwyr sydd angen ar y Cyngor: 9 (Cyngor Cymuned Llanelltyd). Ar hyn o bryd mae 8 (yn cynwys Carwyn).

dd. Penderfnwyd rhoi gwybod i Cyngor Gwynedd mae angen torri'r coed sy'n tyfu ar ochrau hen Bont Llanelltyd.
